

## **Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021**

### **Cwestiynau Cyffredin DBS i Rieni/Gwarcheidwaid**

#### **Pa fath o ofal a ddarperir gan nani?**

Gall darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (nanis) ddarparu gofal hyblyg i gyd-fynd ag amgylchiadau eich teulu. Gallant fyw gyda chi neu ddod i'ch cartref ar ddiwrnodau penodedig neu am nifer o oriau y cytunwyd arni. Gall nani ofalu am blant o ddau deulu gwahanol yng nghartref un o'r teuluoedd. Os fydd dau neu mwy deulu yn ddefnyddio'r gofal ar un pryd, yna mae'r gofal yn perthyn i'r categori "gwarchod plant" ac mae angen i warchodwyr plant fod wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

#### **A yw pob nani wedi'i chymeradwyo o dan Gynllun Llywodraeth Cymru?**

Na, mae cynllun Llywodraeth Cymru yn gynllun gwirfoddol ac nid oes rhaid i nanis gael eu cymeradwyo, ond mae manteision i'r nani ac i rieni yn gysylltiedig â defnyddio nanis cymeradwy.

Os byddwch yn dod o hyd i nani ac nad yw wedi'i chymeradwyo, gallech ystyried ei helpu i gael ei chymeradwyo. Mae cost yn gysylltiedig â'r broses gymeradwyo ac mae rhai teuluoedd yn penderfynu helpu i dalu rhai o'r costau hyn, ond mater i chi yw hyn.

#### **Sut y gallaf gael budd o ddefnyddio nani gymeradwy?**

Os byddwch yn defnyddio nani gymeradwy, efallai y gallwch hawlio cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU er mwyn helpu i dalu costau cyflogi eich nani gan gynnwys Gofal Plant Di-dreth, Credydau Treth, elfen gofal plant Credyd Cynhwysol neu dalebau gofal plant cyflogwyr.

#### **Pa wiriadau a gynhelir fel rhan o'r broses gymeradwyo?**

Pan gaiff nanis eu cymeradwyo, cynhelir gwiriadau gan Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn sicrhau eu bod:

- yn meddu ar dystysgrif gwiriad manylach gan y DBS
- yn meddu ar yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sy'n cwmpasu marwolaeth, anaf, difrod neu golled arall
- wedi cael hyfforddiant addas, gan gynnwys cymhwyster cymorth cyntaf bediatrig gyfredol

#### **A oes unrhyw beth arall y dylwn i ei wneud neu ei ystyried cyn defnyddio nani a gymeradwywyd o dan Gynllun Llywodraeth Cymru?**

Mae angen i chi fod yn ymwybodol nad yw nanis cymeradwy wedi'u cofrestru yn yr un ffordd gan fod darparwyr gofal dydd neu warchodwyr plant wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Bydd eich nani, os yw wedi'i chymeradwyo, wedi

mynd drwy brosesau gwirio a sicrwydd sylfaenol ond ni fydd yn cael ei rheoleiddio na'i harolygu yn yr un ffordd â darparwyr gofal plant cofrestredig.

Argymhellir eich bod yn cyfweld â darpar nani, yn gofyn am eirdaon ac yn gweld ei thystysgrif gymeradwyo. Mae'n rhaid i nanis wneud cais i gael eu hailgymeradwyo o dan y cynllun bob blwyddyn ac, felly, byddwch am gadarnhau nad yw eu cymeradwyaeth wedi dod i ben.

Chi sy'n gyfrifol am dalu cyflog y nani a threfnu contract. Gall nanis fod yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig.

### **Sut y gallaf gael gwybod a yw darparwr gofal plant yn y cartref (nani) wedi'i gymeradwyo?**

Caiff pob darparwr gofal plant yn y cartref cymeradwy Lythyr Cymeradwyo gyda'i enw, y cyfnod dilysrwydd a rhif adnabod unigryw. Pan fyddwch yn gyflogi nani, dylech ofyn iddi gyflwyno'r llythyr hwn i chi fel tystiolaeth ei bod wedi'i chymeradwyo.

### **Sut y gallaf ddod o hyd i ofalwyr cymeradwy yn fy ardal?**

Gallwch gysylltu â'ch [Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd](#) lleol i ddod o hyd i ofalwyr cymeradwy yn eich ardal.

### **Beth bydd y corff cymeradwyo yn ei wneud os caiff ei hysbysu bod darparwr gofal plant yn y cartref cymeradwy wedi niweidio plentyn?**

Bydd yn dweud wrth y sawl sy'n ffonio am hysbysu'r Awdurdod priodol ac yn nodi manylion y darparwr gofal plant yn y cartref a'i gyfeiriad ac yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol. Pan gaiff ei hysbysu bod awdurdod priodol yn ymchwilio i honiadau, caiff AGC dynnu cymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad. Os bydd yr ymchwiliad yn canfod nad yw wedi gwneud unrhyw beth o'i le, gall y gofalwr plant gyflwyno cais newydd i gael ei gymeradwyo.

### **Beth am bobl sy'n gofalu am blant sy'n perthyn iddynt? A all rhieni'r plant hawlio cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU tuag at gostau gofal plant os bydd perthynas yn gofalu amdanynt?**

Fel arfer, ni allwch hawlio cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU er mwyn helpu gyda gofal plant a ddarperir gan berthnasau, hyd yn oed os ydynt wedi'u cymeradwyo.

### **A fydd y gofal plant a ddarperir gan nani a gymeradwywyd o dan Gynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021 yn gymwys i gael cyllid y Cynnig Gofal Plant?**

Na fydd, ni all gofalwr plant sy'n rhan o Gynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021 ddarparu [lleoedd a ariennir gan Cynnig Gofal Plant Cymru](#).

**Os ydw i'n defnyddio gofal plant a ddarperir gan nani a gymeradwywyd o dan Gynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021, a ystyrir bod hwn yn ofal plant cymwys at ddibenion cael cymorth drwy'r elfen gofal plant o Gredydau Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol, Gofal Plant Di-dreth a thalebau cyflogwyr?**

Mae gofal plant a ddarperir gan ddarparwr gofal plant yn y cartref a gymeradwywyd o dan delerau'r cynllun hwn, sy'n darparu gofal yng nghartref un o'r blant y mae'n gofalu amdanynt, yn ofal cymwys at ddibenion asesu cymhwysedd i gael elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol a buddion treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n gysylltiedig â defnyddio talebau gofal plant cyflogwyr. Gall nanis sy'n rhan o Gynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021 hefyd gofrestru ar-lein i gael taliadau rhieni drwy Ofal Plant Di-dreth.

Ar ôl i'r darparwr gofal plant yn y cartref gofrestru, bydd yn ymddangos ar y [Gwiriwr Darparwyr Gofal Plant](#). Mae hyn yn galluogi rhieni i gadarnhau a yw'r nani eisoes wedi cofrestru ar gyfer Gofal Plant Di-dreth.